------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

## 09.15 - 09.30 - Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â rôl Comisiynydd Plant Cymru

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 66)

Papur briffio gan randdeiliad - Papur preifat 1

Papur briffio gan randdeiliad - Papur preifat 2

Llywodraeth Cymru

CYPE(4)-24-15 - Papur 3

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi;

Kate Cassidy, Cyfarwyddwr - Cymunedau a Threchu Tlodi;

Elin Gwynedd, Pennaeth Grymuso Plant a Phobl Ifanc

## 3 Craffu ar waith y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi mewn perthynas â'r adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

(10.30 - 11.30)

Llywodraeth Cymru

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi;

Kate Cassidy, Cyfarwyddwr – Cymunedau a Threchu Tlodi;

Elin Gwynedd, Pennaeth Grymuso Plant a Phobl Ifanc

## 4 Papurau i'w nodi

(11.30)

**Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau - drafft cychwynnol o god Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) arfaethedig**

(Tudalennau 67 - 68)

CYPE(4)-24-15 - Papur i'w nodi 4

**Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi**

(Tudalen 69)

CYPE(4)-24-15 – Papur i'w nodi 5

**Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS) yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi**

(Tudalen 70)

CYPE(4)-25-15 – Papur i'w nodi 6

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (x) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod ac ar gyfer yr holl gyfarfod ar 22 Hydref

(11.30)

## 6 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - trafod yr adroddiad drafft

(11.30 – 12.00) (Tudalennau 71 - 77)

CYPE(4)-25-15 – Papur preifat 7

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

**YR ADRODDIAD AR GYDYMFFURFIAETH Â'R MESUR HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC (CYMRU)**

**Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

1. O ganlyniad i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'n rhaid i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Diben hyn yw sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, trwy greu diwylliant sy'n parchu ac yn cynnal hawliau plant. Mae popeth a wnawn, wrth inni weithredu'r Mesur, yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau gwell a llunio polisïau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc, gan eu galluogi i wireddu eu potensial o ganlyniad.

2. Ar 1 Mai 2014, daeth y Mesur i rym yn llawn. I gyd-fynd â hyn, cyhoeddwyd ein Cynllun Hawliau Plant wedi'i ddiwygio a'i gryfhau, i nodi'r trefniadau sydd gan Weinidogion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Cafodd hwn gefnogaeth drawsbleidiol unfrydol pan gafodd ei basio.

3. Mae Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidogion gyhoeddi adroddiad [ar gydymffurfiaeth], o leiaf bob pum mlynedd, am y modd y maent hwy a Phrif Weinidog Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd dan adran 1. Fe adolygon ni'r cylch adrodd ar gydymffurfiaeth ac fe ymrwymon ni i lunio adroddiadau canol tymor, gan newid o adroddiadau bob 5 mlynedd i adroddiadau bob dwy flynedd a hanner. O ganlyniad, cyhoeddwyd yr ail Adroddiad ar Gydymffurfiaeth ar 1 Gorffennaf 2015 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Mehefin 2015.

**Yr Adroddiad ar Gydymffurfiaeth**

4. Mae'r Adroddiad ar Gydymffurfiaeth yn nodi sut y mae Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau dan y Mesur, sut y maent wedi sefydlu'r trefniadau mewn perthynas ag adran 1 o'r Mesur fel a nodir yng Nghynllun Hawliau Plant 2014, y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyffredinol a pha effaith y mae wedi'i chael.

5. Fe ymrwymodd Gweinidogion Cymru hefyd i adrodd ar yr elfennau canlynol, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Gydymffurfiaeth:

   - yr hyfforddiant sydd ar gael, yn fewnol ac yn allanol;
   - trosolwg o waith Grŵp Gweithredu'r Cynllun Hawliau Plant a Grŵp Gweithredu'r Mesur;
   - nifer yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyflawnwyd, yr adroddwyd yn eu cylch fesul adran;
   - effeithiolrwydd proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gan gynnwys enghreifftiau penodol;
   - Gweithgareddau sy'n ymwneud â hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o dan adran 5 y Mesur.

6. Er mai fi yw'r Gweinidog portffolio ar gyfer plant a hawliau plant, mae'r ddyletswydd yn berthnasol i bob Gweinidog. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu hyn ac mae'r enghreifftiau a ddefnyddir yn rhai ar draws portffolios Gweinidogion ac ar draws deddfwriaeth, polisi a rhaglenni. Fe wnaed hyn er mwyn dangos bod y prosesau ar gyfer rhoi sylw dyledus yn bodoli ar sawl ffurf a bod angen iddynt fod yn hyblyg i ystyried ehangder a chwmpas gwaith y Llywodraeth. O ganlyniad i weithredu'r Mesur yn llawn a chymhwyso'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r holl swyddogaethau Gweinidogol, bu cynnydd sylweddol yn nifer y prosesau i Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant a gyflawnwyd:

**Niferoedd yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant rhwng mis Mai 2014 a mis Medi 2015**: 126

| | |
|---|---|
| Yr Adran Addysg a Sgiliau | 38 |
| Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 38 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 4 |
| Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 3 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 25 |
| Cyfoeth Naturiol | 18 |

7. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' mewn nifer o ffyrdd. Nid yw wastad yn syml ac ni fydd wastad yn golygu cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Hefyd, nid yw proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant o anghenraid yn arwain at ganlyniad rhagddiffiniedig arbennig. Mae'n bosibl nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mwyaf cadarn a chynhwysfawr a gyflawnwyd i'r safon uchaf yn newid canfyddiadau/canlyniadau'r penderfyniad a wneir. Efallai fod y broses yn cadarnhau nad yw'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith neu fod yr effaith yn gadarnhaol ar y cyfan ac nad oes angen newid y cyfeiriad teithio. Mae a wnelo â'r modd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r ystyriaethau a roddir er mwyn dod i gasgliad, nid o anghenraid â'r casgliad ei hun.

8. Mae ein polisi ar gyfer trefnu bod ein Hasesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gael yn gyhoeddus yn tystio i'n natur agored a'n tryloywder ac i fudd ymgysylltu mewn modd adeiladol â'n rhanddeiliaid a phartïon â buddiant. Mae 3 chylchlythyr ar yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael eu cyhoeddi hyd yma, ac maent wedi cael derbyniad da.

9. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae'r Llywodraeth yn defnyddio pob math o ddulliau a llwybrau i hybu hawliau plant, gan gynnwys adnoddau sy'n briodol i oedran, hyfforddiant mewnol ac allanol, pecynnau e-ddysgu a darparu cyllid ar gyfer cynhadledd ryngwladol ac i sefydlu canolfan ragoriaeth dros hawliau plant. Mae gan wybodaeth a dealltwriaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn rôl bwysig o ran sicrhau bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau a gynhwysir ynddo'n cael eu parchu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

**Adnoddau:**

**Hawliauplant.cymru** yw gwefan Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ers mis Ionawr 2015 cafwyd **26,758** o ymwelwyr unigryw.

**Twitter** (uncrc_wales) – ers mis Mehefin 2010 pan gafodd ei sefydlu:

| Dilynwyr | Yn Dilyn | Trydariadau a anfonwyd |
|---|---|---|
| 503 | 240 | 642 |

**Adnoddau ar ffurf copi caled** – gofynnwyd am **27,079** gan nifer o sefydliadau ers mis Tachwedd 2014. Mae'r rhain yn ychwanegol at y rhai sydd ar gael i'w lawrlwytho ar y wefan hawliauplant.cymru.

Er enghraifft:

- taflen ffeithiau hwyliog ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig i blant iau (7-11 oed) – ers ei chyhoeddi ar 14 Medi 2015, mae sefydliadau wedi gofyn am 5300 o gopïau i'w dosbarthu'n uniongyrchol i blant a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy.
- 9,690 o fagiau llyfrau i'w hanfon i leoliadau Dechrau'n Deg a'r rheini'n cynnwys dau o'n hadnoddau ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hawliau plant yng Nghymru.

**Hyfforddiant ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc:**

**Niferoedd sydd wedi mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ers mis Rhagfyr 2013:**

| Sector y darparwyd ar ei gyfer: | 2013-14 | 2014-15 | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| Rheoli | 2 | 30 | 32 |
| Addysg | 18 | 25 | 43 |
| Iechyd | 31 | 4 | 35 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 46 | 33 | 79 |
| Ieuenctid | 9 | 63 | 72 |
| Cyfiawnder | 103 | 28 | 131 |
| Chwaraeon | 0 | 2 | 2 |
| Y Blynyddoedd Cynnal a Gofal Plant | 79 | 27 | 106 |
| Y Cyfryngau | 7 | 5 | 12 |
| Y Sector Gwirfoddol | 0 | 33 | 33 |
| Hyfforddiant | 0 | 22 | 22 |
| Heb ei nodi | 0 | 2 | 2 |
| Cyfanswm | 295 | 274 | 569 |

**Niferoedd a ddefnyddiodd adnodd e-ddysgu allanol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o fis Rhagfyr 2012 (ar gael ar hawliauplant.cymru):** 543

**Hyfforddiant ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i swyddogion y llywodraeth:**

Cyn 1 Mai 2014 roedd dros 2000 o swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r fersiwn flaenorol o'r hyfforddiant ar-lein ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Ers hynny (rhwng 1 Mai 2014 a 30 Ebrill 2015) mae dros 1000 wedi cael hyfforddiant wyneb yn wyneb neu wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein diwygiedig. Mae hyn yn ychwanegol at hyfforddiant pwrpasol i adrannau a thimau megis y Gwasanaethau Cyfreithiol.

| Adran | Nifer |
|---|---|
| Yr Adran Addysg a Sgiliau | 53 |
| Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 92 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 162 |
| Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | 76 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 87 |
| Cyfoeth Naturiol | 470 |
| Yr Ysgrifennydd Parhaol | 5 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 3 |
| **CYFANSWM** | **1148** |

10. Yn ogystal â darparu gwasanaethau effeithiol sy'n arwain at ganlyniadau gwell, mae'n rhaid gwrando ar blant a phobl ifanc ac ymgysylltu â hwy. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gyfranogiad plant a phobl ifanc ac mae'n darparu £1.8 miliwn dros 3 blynedd i Ganolfan Ragoriaeth Plant yng Nghymru dros Hawliau Plant, sy'n cynnwys strwythurau i alluogi miloedd o blant a phobl ifanc i leisio'u barn gan gael gwrandawiad ac i ddylanwadu ar ein gwaith. Lansiwyd eu model cyfranogiad annibynnol cenedlaethol, Cymru Ifanc / Young Wales, ar ddiwedd mis Mawrth 2015 ac mae pobl ifanc o bob math o gefndir yn pennu natur y gwaith trwy grwpiau llywio. Hefyd, rydym yn dal i ymweld ag Awdurdodau Lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd i alluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

11. Fe wnaeth yr adroddiad ar gydymffurfiaeth ein galluogi i gyfleu'r camau gweithredu a'r cynnydd a wnaed, yn ogystal â rhoi cyfle i fyfyrio ac ystyried y gwersi a ddysgwyd gyda golwg ar wneud gwelliannau fel a nodir yn yr adroddiad. Rydym yn mynd ati'n barhaus i asesu effeithiolrwydd yr hyn a wnawn a'r modd yr ydym yn gwneud pethau. Bydd y broses fyfyrio'n cael ei goleuo i raddau helaeth gan werthusiad annibynnol o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a ddisgwylir tuag at ddiwedd mis Medi 2015.

**Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru**

12. Cafodd yr Adolygiad annibynnol ar Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ei gomisiynu gan y Cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert AC. Bwriad yr adolygiad oedd sicrhau bod rôl y Comisiynydd Plant mor eglur ac effeithiol â phosibl er budd plant a phobl ifanc ac roedd yr argymhellion yn ceisio cryfhau ymhellach safle gwerthfawr y Comisiynydd.

13. Cwblhawyd yr adolygiad gan Dr Mike Shooter a gyhoeddodd yr adroddiad terfynol ar 10 Rhagfyr 2014. Fe wnaeth 40 o argymhellion sy'n ymdrin â phenodi, craffu ac atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, llywodraethu ac atebolrwydd, a gwerth am arian.

14. Ar 15 Gorffennaf, fe gyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am yr adolygiad, gan nodi perthnasedd gwahanol argymhellion i wahanol bartïon, a chan nodi safbwynt y Llywodraeth ynghylch penodi Comisiynwyr.

**Argymhellion i'r Comisiynydd**

15. Roedd pymtheg o argymhellion yr Adolygiad yn faterion gweithredol i Gomisiynydd Plant Cymru gan gynnwys amcangyfrifon gwell o'r gyllideb, cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy, ac ystyried strwythur y staff mewnol. Rwyf wedi ysgrifennu at y Comisiynydd, yr Athro Holland, ac wedi cwrdd â hi wedyn, gan ofyn iddi ystyried y rhain. Mae'r Comisiynydd wedi ymateb mewn ffordd agored a chadarnhaol i'r argymhellion ac mae eisoes yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i nifer ohonynt, ac mae wedi ymrwymo i roi ystyriaeth bellach i weddill yr argymhellion. Mae'r Athro Holland wedi cytuno i'm hysbysu ynghylch y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r argymhellion hyn.

**Argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

16. Roedd dau o'r argymhellion, a oedd yn ymwneud â chraffu ar y Comisiynydd, yn faterion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfan gwbl ac rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd er mwyn eu dwyn i'w sylw.

**Yr argymhellion sy'n weddill i'r Llywodraeth**

17. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym yn glir y dylai'r cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd barhau i orwedd gyda Llywodraeth Cymru, tra bo'r rôl sy'n ymwneud â chraffu ac atebolrwydd yn gorwedd gyda'r Cynulliad. Mae gwahanu'r ddwy set yma o swyddogaethau'n diogelu annibyniaeth effeithiol y Comisiynydd. Caiff y Comisiynydd ei benodi gan Brif Weinidog Cymru, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored sy'n cynnwys Panel â chynrychiolaeth drawsbleidiol a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd, fel pawb arall mewn bywyd cyhoeddus, yn atebol i'r cyhoedd trwy Bwyllgorau Pwnc a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

18. Mae a wnelo nifer o'r argymhellion sy'n weddill â deddfwriaeth bosibl. Cyn ymrwymo i ddeddfwriaeth newydd, mae angen ystyried a yw'n ddymunol, yn angenrheidiol ac yn ymarferol. Mae Gweinidogion yn ymwybodol o rolau a phwerau gwahanol y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n benodol i'w cylchoedd gwaith, a dylid cynnal y rhain. Rydym ni o'r farn na ddylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei gynnwys fel rhan o'n hystyriaethau. Byddai angen tystiolaeth arnom o'r angen am un darn o ddeddfwriaeth sy'n diffinio rolau a dibenion yr holl Gomisiynwyr, neu o'r angen i ddiwygio deddfwriaeth bresennol er mwyn dwyn mwy o gysondeb. Mae swyddogion wedi dechrau ar waith i gwmpasu ac ystyried yr angen am ddeddfwriaeth newydd a goblygiadau'r ddeddfwriaeth honno. Fodd

bynnag, ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth newydd, pe ystyrid ei bod yn angenrheidiol, yn bosibl tan dymor nesaf y Cynulliad.

19. Er ein bod yn derbyn bod angen i'r priod Gomisiynwyr gael eu hariannu'n ddigonol i gyflawni eu rôl, mae'n rhaid i'r holl gyrff sy'n cael arian cyhoeddus allu dangos gwerth am arian. Mae'r angen am hyn yn fwy taer byth o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a'r angen am fwy o effeithlonrwydd. Rydym wedi cynnig cefnogaeth, cyngor ac anogaeth i'r Comisiynwyr i geisio cydweithio gymaint ag a ellir, ac adnabod arbedion maint mewn gwasanaethau cymorth a chostau swyddfeydd.

20. Ceir rhai argymhellion sydd eisoes wedi cael sylw, megis cynnwys plant a phobl ifanc ac Aelodau o bob plaid yn y broses ar gyfer penodi'r Comisiynydd Plant, y gofynion i roi'r gorau i swyddi presennol lle ceir gwrthdaro canfyddedig rhwng buddiannau a strategaeth hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Comisiynydd Plant ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

21. Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu gyda golwg ar gryfhau swydd y Comisiynydd ac rwy'n falch ei fod wedi ei gwneud yn bosibl cael trafodaeth agored a didwyll gan barchu annibyniaeth y Comisiynydd yn llawn bob amser.

**Huw Lewis AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Ann,

30 Medi 2015

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Ymgynghoriad ar Fil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Yn dilyn cyhoeddi Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) at ddiben ymgynghori ym mis Gorffennaf eleni, mae'n bleser gennyf eich hysbysu fy mod wedi cyhoeddi heddiw fersiwn ddrafft gychwynnol o God arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ynghyd â chynllun amlinellol ar gyfer gweithredu system newydd arfaethedig ar gyfer ADY. Gwnes ymrwymiad ym mis Mehefin i gyhoeddi'r Cod drafft a'r cynllun gweithredu drafft i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Bil drafft. Mae fy Natganiad Ysgrifenedig yn cyfeirio at:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/pubdraftalncode/?skip=1&lang=cy

Mae'r pecyn o ddogfennau ategol ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Bil drafft bellach yn gyflawn. Er nad yw'r dogfennau hyn yn rhai terfynol, ac er nad ydym yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd, byddant yn rhoi darlun ehangach i'r bobl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft o'r modd y bydd y system newydd yn gweithio a'r egwyddorion allweddol o safbwynt gweithredu. Gobeithiaf felly y byddant yn llywio'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft ac y byddant yn sail i ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid wrth i ni barhau i ddatblygu'r Bil drafft a'r Cod. Y nod yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyflwyno Bil ar ddechrau tymor y Cynulliad nesaf.

Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen ymateb y Pwyllgor i'r Bil drafft a'r dogfennau ategol a hyderaf y bydd yr Aelodau yn parhau i gefnogi'r broses ddiwygio er mwyn sicrhau gwell cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Best Regards
Huw

**Huw Lewis AC**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

## NOTE 23 – EXIT PACKAGES

The number of exit packages with total cost per band and total cost of the compulsory and other redundancies are set out in the table below. The cost in the table below reflects the related cost to the employer rather than the actual value of the payments to the individuals. In 2013/14 all of the packages listed are for officers who transferred over to GwE and were financed entirely by the originating authorities (see Note 24).

| (a) | (b) | | (c) | | (d) | | (e) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Exit package cost band (including special payments) | Number of compulsory redundancies | | Number of other departures agreed | | Total number of exit packages by cost band | | Total cost of exit packages in each band | |
| | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 | 2013/14 | 2014/15 |
| £ | Number | Number | Number | Number | Number | Number | £'000 | £'000 |
| 0 - 20,000 | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 56 | 0 |
| 20,001 - 40,000 | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | 158 | 0 |
| 40,001 - 60,000 | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | 273 | 0 |
| 60,001 - 80,000 | 3 | 1 | 0 | 0 | 3 | 1 | 199 | 69 |
| 80,001 - 100,000 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 95 | 0 |
| 100,001 - 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Total** | 20 | 1 | 0 | 0 | 20 | 1 | 781 | 69 |

## NOTE 24 – EXCEPTIONAL ITEM

The exceptional item in the Comprehensive Income and Expenditure Statement (2013/14) indicates the one-off start up costs for the GwE Joint Committee. The main element are the costs of exit packages as indicated in Note 23, financed from contributions from each originating authority.

## CYPE(4)-24-15 – Paper to Note 6

In response to your emails of the 17th and 29th September 15, please find below the EAS response to questions posed by the Children Young People and Education Committee.

***QUESTION**: The committee would be interested to know if you employ outside organisations or consultants to undertake work on your behalf, can you please include this in your actions update.*

We do commission outside organisations to deliver some services such as skill or technology audits, or training and development services in areas we do not cover. We also engage some individual consultants to deliver the Challenge Adviser role, both through Schools Challenge Cymru and LA schools.

***ACTION**: EAS Consortium agreed to provide a note on the delivery and evaluation of the new pathfinder induction programmes which supports newly qualified teachers who are employed as short term supply teachers.*

EAS is delivering, in partnership with Welsh Government, a pilot programme for Newly Qualified Teacher support based on use of the Host Schools for the Excellence in Teaching programme. Not all NQTs will access this programme, but we expect around half of the cohort to be involved in the pilot with the new programme design being applied to all NQTs in September 2016. A number of NQTs employed as short term supply teachers will also be given access to the pilot programme, though this number is limited by the resources being made available to support the programme. In due course we intend to make elements of the programme available to all NQTs, including all of those employed as short term supply teachers.

***UNASKED QUESTION**: Your views on written evidence received from the Catholic Education Service that regional consortia should adopt a formal protocol outlining their partnership arrangements with Diocesan Authorities.*

During the summer term 2015 the links with each of the Diocesan Directors have been improved. This strengthening of relationships includes the allocation of the role of Challenge Adviser with specific responsibility of keeping abreast of developments within schools with a religious element and attendance at key Faith school events. The implementation of a structured meeting schedule between each of the Diocesan Directors and the Assistant Director on a half termly basis has started. Each of the Directors has been keep abreast of developments within the service and have been consulted on key documents and processes within their schools, this will continue through the year. The Challenge Adviser training programme has included training from the Directors to ensure that all Challenge Advisers are aware of the distinct nature of schools with a religious elements and the statutory functions that the Diocese have. The Directors will play a key role in the agreement of National Categorisation alongside the LA Directors of Education and the agreement of statutory pupil level targets.

Steve Davies
Managing Director / Rheolwr Gyfarwyddwr
Education Achievement Service for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon